

Iesu – perffraith ymhob dim

“Os wyf yn dweud y gwir, pam nad ydych chi yn fy nghredu?” (adn. 46)

Beth am ddarlenn Ioan 8:42–47 ac yna myfyrio

Ddoe mi welom ni fod Luc wedi dechrau'r hyn a alwn yn 'Actau'r Apostolion' (er, a bod yn fwy cywir, 'Actau Iesu drwy'r Apostolion' ddylai o fod) drwy gyfeirio at y ffaith ei fod yn ei efengyl wedi ysgrifennu “am yr holl bethau y dechreuodd Iesu eu gwneud a'u dysgu.” (Actau 1:1). Mae'r drefn, fel dyweddom ni, yn bwysig – gwneud yn gyntaf, yna dysgu. Roedd y gwneud a'r ddsgeidiaeth yn un yn ein Harglwydd; torrwyd blisgyn ei weithredoedd allanol ac fe welwyd gnewylln ystyron tragwyddol.

Soniodd un cenhadwr a aeth i India am y ffresgos a welodd ar waliau un deml – delweddau o dduwiau yn gwneud pob math o bethau ffôl – ac yna mae'n gofyn i geidwad y deml: “Ydi'r ffresgos yma yn eich helpu chi i addoli eich duwiau?” Atebodd y ceidwad: “Mae'n rhaid i chi fod yn gryf iawn pan fyddwch yn dod i'r deml yma neu mi fyddwch chi'n mynd oddi yma ac yn gwneud y pethau mae'r duwiau yn eu gwneud.” Dyna ddadlennol, onid e?

Pan fyddwn yn edrych ar Iesu Grist, fyddwn ni byth yn teimlo bod rhinweddau dwyfol yn cael eu gorfodi arno; yn hytrach maen nhw'n cael eu hamlygu ohono. Maen nhw'n deillio oddi mewn. Gallwn weld ar unwaith yr hyn sy'n cael ei orfodi arno gan ganrifoedd diweddarach a'r hyn sy'n cael ei amlygu ohono ef. Mae'r naill yn ffug, a'r llall yn eirwir. Er enghraifft, nifer o flynyddoedd yn ôl, darganfuwyd llawysgrif yn Ethiopia – yr Efengyl yn ôl Thomas, yn ôl yr honiad. Ceir y frawddeg ganlynol ynddi: “Dyweddodd Pedr wrth Iesu, ‘Afon Mair ymaith. Nid yw'n addas bod merch yn etifeddu bywyd tragwyddol fel dynion.’” “Na”, meddai Iesu, “does dim rhaid iddi fynd ymaith. Fe'i gwnaf yn ddyn ac felly gall hi etifeddu bywyd tragwyddol.” Dyna sy'n digwydd pan fydd dyn yn gorfodi rhinweddau dwyfol ar Iesu – mae'n cynhyrchu anghenfil. Mi ddylen ni fod yn ddiolchgar iawn am ryfeddod a geirwiredd y Testament Newydd.

Beth am fynd ymlaen i ddarlenn:

Ex.15:1–3; 11–13, 17–18; Ioan 4:4–14, 6: 41–51

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut mae Moses yn ymhyfrydu yn Nuw?
2. Beth ydy addewid Iesu i'r wraig o Samaria?

Gweddi

Arglwydd Iesu Grist, po fwyaf rwyf yn dy gymharu ag eraill, mwya rhyfeddol wyt yn fy ngolwg. Eto, dydy dy berffeithrwydd ddim yn fy mharlysu; mae'n fy neffro, yn f'ysbrydoli, yn fy ngalw i fynd ymlaen. Helpa fi i fod yn fwy tebyg i ti. Er mwyn d'enw annwyl Di. Amen.